



# **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Strategaeth Toiledau Lleol

Mai 2019

## Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 3
Pam mae angen strategaeth arnon ni ar gyfer darparu cyfleusterau toiled?	Tudalen 3
Nodau'r strategaeth yma	Tudalen 5
Adolygu'r strategaeth	Tudalen 5
Sut cafodd y strategaeth yma ei datblygu?	Tudalen 6
Sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau a chynlluniau eraill y Cyngor?	Tudalen 7
Pwy sy'n darparu toiledau cyhoeddus?	Tudalen 7
Lleoliadau mapio	Tudalen 9
Yr hyn a ddysgon ni o'r ymgynghoriad cyhoeddus 'Asesiad o Angen'	Tudalen 10
Yr hyn a ddysgon ni o'r ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos	Tudalen 11
Yr hyn y mae modd i'r Cyngor ei wneud mewn ymateb i'r adborth	Tudalen 14
Amcanion a Chynllun Gweithredu i weithredu'r Strategaeth Toiledau Lleol	Tudalen 16
Opsiynau posibl sydd wedi'u hystyried a'u diystyru, gydag eglurhad	Tudalen 17
Data Demograffig ac Iechyd Ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Atodiad 1
Rhestr o ddarpariaeth bresennol y cyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor	Atodiad 2
Canlyniadau'r Asesiad o Angen	Atodiad 3
Canlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus	Atodiad 4

## **Cyflwyniad**

Mae darpariaeth toiledau, a'u hygyrchedd, yn fater sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Mae modd i doiledau glân, hygyrch, sydd wedi'u lleoli mewn mannau fel canol trefi, parciau, llwybrau beicio a cherdded helpu i annog rhagor o bobl i fod yn ymarferol ac yn gorfforol weithredol. Mae'r buddion iechyd ac economaidd yn glir. I'r gwrthwyneb, efallai bydd toiledau sydd â dyluniad gwael, sy ddim yn cael eu cynnal ac sy wedi'u lleoli mewn mannau amhriodol yn creu awyrgylch o ddiystyrwch sy'n annog pobl i beidio â'u defnyddio. Mae'n bosibl bod diffyg cyfleusterau toiled digonol yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, yn ogystal ag effeithio ar iechyd amgylcheddol ehangach y boblogaeth.

Mae toiledau cyhoeddus yn bwysig i bawb ac yn parhau i fod yn fater uchel ei broffil. Serch hynny, mae toiledau'n bwysicach fyth i rai grwpiau yn y gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, pobl ag anghenion penodol (gan gynnwys cyflyrau meddygol penodol), menywod, plant a phobl ifainc, a'u teuluoedd. Mae modd i'r ddarpariaeth wael effeithio'n anghymesur ar y grwpiau yma, er enghraifft, rydyn ni'n deall bod darpariaeth wael yn cael effeithiau negyddol penodol ar bobl hŷn, gan fod rhai ohonyn nhw'n llai tebygol o adael eu cartrefi heb fod yn hyderus y bydd cyfleusterau digonol ar gael iddyn nhw. Mae modd i hyn gyfrannu at gynnydd yn lefelau unigedd cymdeithasol ac anweithgarwch, yn ogystal ag effeithio ar allu pobl i gynnal annibyniaeth ac urddas yn y dyfodol.

Er mwyn cyflawni dull strategol o ddarparu toiledau ledled Cymru, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardaloedd.

Mae gan ddarpariaeth toiledau felly oblygiadau ar gyfer iechyd y cyhoedd ac unigolion, cludiant, atal troseddu, dylunio trefol, datblygiad economaidd a diwylliannol, a chydaddoldeb a hygyrchedd cymdeithasol. Mae'n ffactor bwysig o ran darparu amgylchedd sy'n addas i bawb sy'n ymweld â siopau, lleoliadau hamdden ac adloniant, cyfleusterau chwaraeon, parciau a mannau gwyrdd, a phawb sy'n teithio o gwmpas ein bwrdeistref ac sy'n ymweld â hi. Mae modd i doiledau effeithio ar gysur unigolion a theuluoedd sy'n ymweld â'n mannau cyhoeddus, a'u barn o'r ardal fel lle dymunol i ymweld â hi.

## **Pam mae angen strategaeth arnon ni ar gyfer darparu cyfleusterau toiled?**

Mae'r strategaeth yma'n cyfrannu tuag at sicrhau toiledau hygyrch a glân lle bynnag y mae pobl yn byw, yn gweithio neu'n ymweld ag ef. Efallai bydd yr angen am ddarpariaeth yn cynyddu dros amser wrth i ddatblygiadau fynd rhagddyn nhw a thrwy groesawu ymwelwyr i'r ardal. Dyma amser manteisiol i bennu strategaeth ar gyfer hyrwyddo mynediad i gyfleusterau toiledau lle mae eu hangen.

Derbyniodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n dod ag ystod o weithredoedd ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 o'r Ddeddf yn cyflwyno darpariaeth toiledau, ac yn benodol strategaethau toiledau lleol.

Nod Rhan 8 yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion y gymuned o ran toiledau, ac yna'n ymgymryd ag ymagwedd strategol a thryloyw er mwyn diwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl. Yr effaith fwiadedig yw gwella'r broses o gynllunio darpariaeth fel bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn cyd-destun cyffredinol o ddiwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi yn y cymunedau. Bydd ymagwedd strategol hefyd yn helpu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i newidiadau i'r ddarpariaeth.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Bellach, mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb dros gyflawni'r canlynol:

- asesu anghenion y gymuned o ran toiledau, gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid i bobl ag anableddau;
- rhoi manylion o sut i ddiwallu'r angen a gafodd ei nodi;
- llunio strategaeth toiledau lleol; ac
- adolygu'r strategaeth, ei diweddarau a rhoi cyhoeddusrwydd i ddiwygiadau.

Rhaid i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi'u strategaethau erbyn 31 Mai 2019. Dydy'r ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol ddim yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd golwg strategol ar ba fodd sydd ganddo i ddarparu cyfleusterau, a sut bydd modd i'r boblogaeth leol ddefnyddio'r cyfleusterau yma. Ar ôl adolygu'r strategaeth, mae'n ofynnol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi datganiad o gynnydd.

Nod Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae gan sectorau cyhoeddus ddyletswydd i ystyried effaith hirdymor y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud. Mae'r Ddeddf yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei lle sy'n dweud wrth gyrff cyhoeddus sut i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae'r egwyddor wedi'i ffurfio o bum ffordd o weithio i lywio sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus weithio er mwyn cynnig darpariaethau ar gyfer pobl:

**Hirdymor:** Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

**Atal:** Sut mae modd i weithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

**Integreiddio:** Ystyried sut mae modd i amcanion lles y cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

**Cydweithio:** Mae modd i gydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

**Cynnwys:** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff hwnnw'n ei gwasanaethu.

Cafodd sylw dyledus ei roi i'r pum dull o weithio sydd wedi'u nodi uchod wrth baratoi, adolygu, ymgynghori a chyhoeddi'r strategaeth yma.

## **Nodau'r strategaeth yma**

Nod y strategaeth yma yw adolygu ansawdd a nifer y toiledau lleol ledled y fwrdeistref sirol. Ar ben hynny, mae'n bwriadu darparu neu hwyluso toiledau glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy ar gyfer trigolion ac ymwelwyr mewn lleoliadau lle mae'r angen am gyfleusterau o'r fath wedi'i nodi.

Er mwyn cyflawni'r strategaeth yma, byddwn ni'n:

- nodi lefel bresennol y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus;
- dadansoddi canfyddiadau'r gweithgareddau asesiad o angen ar gyfer toiledau sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn eu hardal;
- ystyried gofynion y boblogaeth gyffredinol;
- nodi'r anghenion ar gyfer grwpiau defnyddwyr penodol;
- nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gyffredol;
- cefnogi mentrau Llywodraeth Cymru i wella gwybodaeth sydd ar gael am gyfleusterau toiledau;
- darparu gwybodaeth sy'n nodi'r camau y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r angen yma, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall y mae'r cyngor yn ei hystyried yn briodol.

## **Adolygu'r strategaeth**

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn paratoi adroddiad cynnydd dros dro sy'n nodi'r camau a gymerwyd yn unol â'r strategaeth bob dwy flynedd, gan ddechrau o ddyddiad y strategaeth ddiwethaf a gafodd ei chyhoeddi. Bydd yr adroddiad cynnydd dros dro yn cael ei gyhoeddi o fewn chwe mis i ddyddiad diwedd y cyfnod o ddwy flynedd. Yn dilyn cyhoeddiad y Strategaeth Toiledau Lleol ym mis Mai 2019, bydd yr adolygiad yn digwydd cyn diwedd Mai 2021 a'i gyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd 2021.

Bydd y strategaeth hefyd yn cael ei hadolygu o fewn blwyddyn o bob etholiad cyffredin ar gyfer yr ardal. Dyddiad yr etholiad nesaf yng Nghymru yw dydd Iau 5 Mai, 2022, Felly, y dyddiad olaf ar gyfer yr adolygiad yw 4 Mai, 2023. Os nad oes newidiadau i'r strategaeth yn dilyn yr adolygiad ôl-etholiad yna bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyhoeddi datganiad cynnydd dros dro sy'n cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd, gan gychwyn o ddyddiad yr etholiad diwethaf.

Caiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf adolygu'i strategaeth ar unrhyw adeg ac yn dilyn hynny mae rhaid iddo gyhoeddi datganiad o'r camau a gymerodd yn unol â'r strategaeth. Os, yn

dilyn adolygiad, bydd penderfyniad yn cael ei wneud i ddiwygio'r strategaeth, caiff strategaeth ddiwygiedig ei chyhoeddi ac yna adroddiad cynnydd dros dro ei baratoi sy'n cwmpasu'r cyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y cyhoeddiad.

## **Sut cafodd y strategaeth yma ei datblygu?**

Cafodd sylw dyledus ei roi i ddata demograffig ac iechyd ardal Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae hyn wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Cafodd sesiynau ymgysylltu â gwasanaethau awdurdodau lleol eraill, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd eu cynnal er mwyn deall yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ac a oes modd llenwi unrhyw fylchau.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus am bedair wythnos rhwng 17 Hydref a 14 Tachwedd 2018. Nod yr ymgynghoriad oedd asesu anghenion y trigolion a phobl sy'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol, neu sy'n ymweld â hi. Roedd mecanweithiau ymgysylltu yn cynnwys:

- Ar-lein trwy wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r cyfryngau cymdeithasol
- Hysbysiadau a gohebiaeth drwy e-bost
- Trafodaethau wyneb yn wyneb mewn sawl lleoliad yn y cymunedau
- Ceisiadau am holiaduron ar bapur gan grwpiau a thrigolion.

Ymgysyllton ni â nifer o sefydliadau drwy anfon yr holiaduron atyn nhw yn uniongyrchol er mwyn iddyn nhw ymateb, gan gynnwys Grŵp Mynediad Rhondda Cynon Taf, RNIB, Cyngor i Bobl Fyddar Cymru, Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf, Fforymau 50+ a Grŵp Cyngor i Bobl Hŷn Rhondda Cynon Taf, Panel Dinasyddion RhCT, Twristiaeth, Sefydliadau Trydydd Sector, Cynllun Cynnal y Cynhalwyr, Fforymau Siambrau Masnach a Busnes Canol Trefi, ac ati.

Llenwodd cyfanswm o 97 o bobl holiadur ac maen nhw wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i lywio cynnwys y strategaeth yma.

Ar ran holl awdurdodau lleol Cymru, cysylltodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili â'r holl fanwerthwyr cenedlaethol sy'n gweithredu ledled y wlad. Roedd hyn yn rhan o ymarfer cydweithredol ar draws Cymru i ganfod a fyddai'r busnesau yma'n fodlon i fod yn rhan o'r strategaeth trwy ganiatáu i bobl sydd ddim yn gwsmeriaid ddefnyddio'u cyfleusterau toiledau, gyda manylion yn cyfeirio'r cyhoedd atyn nhw drwy wefannau cenedlaethol a rhaglenni ffonau symudol; a hefyd yn cytuno i arddangos sticer sy'n nodi logo'r cynllun toiledau cenedlaethol. Roedd y canlyniadau'n siomedig. Doedd dim un o'r busnesau wedi gwirfoddoli i gynnig cyfleusterau toiled ar gyfer y cyhoedd ac i fod ar y map.

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos statudol ei gynnal rhwng 4 Chwefror a 29 Ebrill ar Strategaeth Toiledau Lleol (drafft). Roedd y mecanweithiau ymgysylltu a'r sefydliadau yr ymgysylltwyd â nhw yn union yr un peth â'r ymgynghoriad cyhoeddus Asesiad o Angen. Cafodd sesiwn ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned ei gynnal, a chraffodd y Pwyllgor Materion Iechyd a Lles ar strategaeth ddrafft.

Llenwodd cyfanswm o 60 o ymatebwyr yr holiadur a chafodd yr ymatebion a ddaeth i law eu hystyried wrth lunio'r Strategaeth Toiledau Lleol.

## **Sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau a chynlluniau eraill y Cyngor?**

Er mwyn llwyddo, mae angen i'n strategaeth toiledau lleol integreiddio â blaenoriaethau a chynlluniau eraill sy'n bodoli eisoes fel Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016-2020 a Chynllun Lles Cwm Taf 2018-2023.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weledigaeth glir lle mae Rhondda Cynon Taf yn fwrdeistref sirol sydd â dyheadau uchel, yn hyderus ac yn hyrwyddo cyfleoedd i bawb, ac yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth: Economi - adeiladu economi gref; Pobl – hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb; Lleoedd – creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw. Mae modd i'r strategaeth toiledau lleol gyfrannu at hynny drwy gefnogi nifer o Amcanion Lles yng Nghynllun Corfforaethol 2016-2020 y Cyngor er mwyn gwireddu'r weledigaeth.

Mae Cynllun Lles Cwm Taf 2018-2023 yn cynnwys tri amcan: Cymunedau Ffyniannus – hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac sy'n adeiladu ar rinweddau ein cymunedau; Pobl Iach - helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau; Economi Gref - tyfu economi leol gref gyda chlodiant cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf; gydag amcan trawsbynciol o Fynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Arwahanrwydd - byddwn ni'n defnyddio dulliau newydd er mwyn manteisio ar gryfderau ein cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli i fynd i'r afael â'r unigrwydd ac unigedd sydd, yn aml, yn bodoli o fewn llawer ohonyn nhw, mewn modd mwy effeithiol.

Mae'r cynlluniau yma'n pennu'r cyfeiriad strategol ar lefel ranbarthol a lleol. Mae'r strategaeth toiledau lleol yn ategu nifer o'r amcanion a nodau yma. Mae angen toiledau hygyrch, cyhoeddus ar bob un ohonon ni ar ryw adeg yn y lleoedd rydyn ni'n byw a gweithio ynddyn nhw, neu'r lleoedd rydyn ni'n ymweld â nhw, ac felly mae'r ddarpariaeth yn cyffwrdd ar bob rhan o wasanaethau'r Cyngor mewn rhyw ffordd.

## **Pwy sy'n darparu toiledau cyhoeddus?**

Darpariaeth cyfleusterau toiled mewn adeiladau ar wahân fu'r model traddodiadol ar gyfer darparu cyfleusterau toiled lleol. Mae manteision yn gysylltiedig â darpariaeth sydd wedi'i lleoli mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes lle bynnag y bo modd yn cynnwys lleihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth, a'r costau cysylltiedig.

Mae gan ddarparwyr masnachol mewn canolfannau manwerthu gydag oriau agor estynedig ac mewn lleoliadau adloniant ac atyniadau ymwelwyr rôl bwysig i'w chwarae wrth fodloni anghenion eu cwsmeriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol. Bydd yr achos dros doiledau hygyrch i'r cyhoedd mewn amrywiaeth ehangach o adeiladau yn y gymuned yn cryfhau. Mae hyn yn denu ystod ehangach o bartneriaid posibl i'w rheoli a'u hariannu.

Dydy darparu toiledau lleol ar gyfer defnydd cyhoeddus ddim yn ofyniad statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Efallai bydd angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gau cyfleusterau toiled traddodiadol, fel y mae nifer o awdurdodau lleol eraill wedi gwneud, o ganlyniad i doriadau ariannol o fewn llywodraeth leol. Nod y strategaeth yma yw lliniaru'r effeithiau posibl drwy gynyddu argaeledd cyhoeddus o doiledau mewn rhagor o gyfleusterau'r Cyngor a gweithio gyda'r sector preifat i helpu i hyrwyddo eu cyfleusterau.

Mae'r Cyngor wedi cadw a chynnal y ddarpariaeth bresennol o gyfleusterau toiledau cyhoeddus ledled y Fwrdeistref Sirol am dros bum mlynedd. Mae hefyd wedi buddsoddi dros £350,000 yn ystod y blynyddoedd diweddar i gynnal y ddarpariaeth bresennol. Dydy'r Cyngor ddim yn codi tâl ar gyfer defnyddio ein toiledau cyhoeddus.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf, gan gynnwys cyfleusterau yn Aberdâr, Tonysguboriau, Pen-y-graig, Tonpentre, Gorsaf Fysiau Pontypridd, Treherbert, y Porth a Threorci. Mae'r gwaith wedi cynnwys plastro waliau a gosod teils, gosod teils chwarel ar loriau, nwyddau ar y waliau (gosodiadau awtomatig ar gyfer sebon, dŵr a sychu dwylo), darparu unedau toiled lle mae'r seddi wedi'u cysylltu â'r gwaelod sy'n golygu hylendid gwell ac yn sicrhau nad oes modd eu fandaleiddio. Mae gwaith pellach wedi cynnwys drysau mewnol newydd ynghyd â system gloi awtomatig lle mae modd agor a chau'r cyfleusterau gan ddefnyddio cyfrifiaduron a ffonau symudol. Cafodd y waliau allanol eu paentio, ac mae arwyddion newydd wedi cael eu gosod. Mae'r buddsoddiad yma'n dangos ymrwymiad y Cyngor at fuddsoddi yn y pethau sy'n bwysig i'n cymunedau.

Nid dim ond awdurdodau lleol sy'n darparu cyfleusterau toiledau, ond mae darparwyr a dewisiadau eraill ar gael. Mae cyfuniad o'r rhain yn ffurfio rhan o'r strategaeth yma ac yn helpu i gyflawni'r camau a ddisgrifir yn hwyrach.

- **Eiddo'r Cyngor:** Yn cynnwys adeiladau pwrpasol sydd ar wahân gan ddarparu ardaloedd ar wahân ar gyfer Merched, Dynion, ac uned hygyrch, lle bynnag y bo modd, ar gyfer pobl anabl a chyfleusterau newid babanod. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal a chadw, rheoli a glanhau'r cyfleusterau yma.

Mae modd gweld manylion y cyfleusterau cyhoeddus wedi'u darparu gan y Cyngor [yma](#) Cyfeiriwch hefyd at Atodiad 2 am restr o'r ddarpariaeth bresennol o gyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor.

**O fewn cyfleusterau, swyddfeydd a mannau gwyrdd y Cyngor:** Efallai y bydd cyfleusterau toiled ar gael i'r cyhoedd lle mae'r lleoliad, mynediad ac amgylchiadau unigol yn caniatáu hynny, er enghraifft mewn llyfrgelloedd, canolfannau chwaraeon a rhai swyddfeydd y Cyngor. Mae yna doiledau ar gael mewn rhai parciau a lleoliadau cefn gwlad. Mae hyn yn rhan o'r angen ehangach i sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd ar gael yn hygyrch i bawb yn y gymuned.

- **Darpariaeth y sector masnachol / manwerthu:** Mae llawer o gyfleusterau toiled wedi'u darparu gan fusnesau masnachol a manwerthu wedi bod at ddefnydd cwsmeriaid yn unig neu'n bennaf. Mae rhai rheolwyr siopau yng nghanol y trefi yn deall bod pobl yn dod i mewn i ddefnyddio'r toiledau ac yn cydnabod bod modd i hynny arwain at bobl yn prynu nwyddau



tra eu bod nhw yno. Mae'r rhan fwyaf o atyniadau ymwelwyr a thwristiaeth a lleoliadau adloniant fel sinemâu yn darparu cyfleusterau toiled. Mae aelodau'r cyhoedd yn dibynnu ar gyfleusterau o'r fath.

- **Cynlluniau gwirfoddol trwy ddarparwyr preifat:** Roedd arolwg wedi'i gynnal dros Gymru gyfan ymhlith manwerthwyr cenedlaethol mwy o faint i geisio creu cytundeb mewn egwyddor bod modd i'r cyhoedd yn gyffredinol ddefnyddio'u cyfleusterau toiled. Gwrthododd y rhai a ymatebodd gytundeb o'r fath.

## Mapio lleoliadau

Dyma ran bwysig o'n strategaeth gan y bydd yn sicrhau bod modd i bobl sydd angen defnyddio cyfleuster toiledau ddod o hyd i'r wybodaeth am leoliad, amserau agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael heb drafferth.

Bydd y lleoliadau sy'n cymryd rhan yn arddangos sticer mewn man amlwg, sy'n nodi bod y toiledau ar gael i'r cyhoedd. Bydd y sticer yn dangos y logo sydd wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru, fel sydd wedi'i ddangos isod.



Mae Cymdeithas Toiledau Prydain hefyd yn argymhell gosod arwyddion ar y tu allan yn nodi gwybodaeth fel oriau agor, gwybodaeth gyswllt ar gyfer adrodd problemau a'r cyfleusterau penodol a ddarperir y tu mewn, er enghraifft a oes cyfleusterau newid babanod ar gael.

Unwaith y byddwn ni wedi nodi'r toiledau sydd ar gael ar gyfer y cyhoedd, bydd y Cyngor yn paratoi'r data a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd y data yn cynnwys lleoliad a nodweddion penodol y toiledau. Bydd y data hefyd ar gael drwy system Llywodraeth Cymru ac wedi'i chyfuno â manylion awdurdodau lleol eraill er mwyn creu rhestr genedlaethol ar gyfer y map "Lle". Porth daearyddol yw "Lle" sy'n gweithredu fel lleoliad ar gyfer data a gwybodaeth sy'n cynnwys sawl pwnc, ond yn bennaf am yr amgylchedd. Bydd "Lle" yn cynhyrchu mapiau Cymru gyfan yn seiliedig ar y data gan awdurdodau lleol y mae modd eu cyflunio i ganolbwyntio ar y darlun cenedlaethol, neu ar ardaloedd lleol. Bydd y data yn y map "Lle" ar gael fel gwasanaeth data agored sy'n hygyrch i bawb. Y ddolen i'r porth "Lle" yw: <http://lle.gov.wales/home?lang=cy>

O bryd i'w gilydd bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddarau ystorfa ddata "Lle" Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ar gyfer cyhoeddwy'r canllawiau a mapiau, trigolion ac ymwelwyr.

Dydy Llywodraeth Cymru ddim wedi datblygu rhaglen ffôn symudol, gan nad oes modd i lawer o bobl ddefnyddio ffôn smart am nifer o resymau. Mae'n fwy priodol i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr wybodaeth ar gael ar-lein trwy ystod eang o wefannau a thrwy ddulliau all-lein traddodiadol.

Er mwyn i ddata gael ei ystyried yn ddata agored rhaid iddo fod ar gael o dan drwydded agored. Yn y Sector Cyhoeddus, mae modd cyflawni hyn trwy gyhoeddi data o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Gan fod y data sydd wedi'i gynnig gan awdurdodau lleol ar gael fel data agored, bydd modd i drydydd parti ei ail-ddefnyddio, naill ai'n uniongyrchol o wefan yr awdurdod lleol ei hun, neu drwy'r data cyfunedig tu ôl i'r map "Lle". Efallai bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau mapiau ar-lein eraill, datblygwyr rhaglenni neu fuddiannau masnachol, yn ogystal â bod ar gael i'w aildefnyddio gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill.

Bydd y data ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd modd i'r cyhoedd weld a phori'r data fel y mae'n ymddangos ar wefan "Lle", er mwyn gweld Cymru gyfan neu edrych ar ardaloedd penodol.

## **Yr hyn a ddysgon ni o'r ymgynghoriad cyhoeddus 'Asesiad o Angen'**

Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus 'Asesiad o Angen' ym mis Hydref 2018 am gyfnod o bedair wythnos ledled Rhondda Cynon Taf. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau ac ystod eang o bartïon â diddordeb er mwyn ystyried gofynion y boblogaeth gyffredinol, er mwyn ystyried anghenion grwpiau defnyddwyr penodol, er mwyn adolygu'r cyfleusterau toiled presennol, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol, ac ati.

Roedd sawl dull ymgysylltu wedi'u defnyddio yn ystod yr ymgynghoriad gan gynnwys adborth gan y cyhoedd, y cyfryngau cymdeithasol, cynnwys ar-lein a negeseuon e-bost, arolygon a holiaduron, a phresenoldeb mewn lleoliadau yn y gymuned.

Mae canlyniadau llawn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'w gweld yn Atodiad 3 y strategaeth yma.

Roedd amrywiaeth eang o gwestiynau ar gyfer yr ymatebwyr yn ymwneud a'r ardaloedd mwyaf poblogaidd i ymweld â nhw yn Rhondda Cynon Taf, amser yr ymweliad, manylion am y ddarpariaeth toiledau a chyfleusterau newid, atyniadau a pharciau. Yna roedd cyfres o ddatganiadau yn ymwneud â'r cyfleusterau lle'r oedd gofyn i ymatebwyr gytuno neu anghytuno â nhw.

Dyma rai o'r canfyddiadau allweddol o'r arolwg:

- Rodd 91% o'r sawl a ymatebodd yn drigolion Rhondda Cynon Taf.
- 'Annigonol' oedd barn gyffredinol yr ymatebwyr ynghylch y cyfleusterau mewn trefi a phentrefi, o'u cymharu â'r dewisiadau eraill ar gael, yn gynnar yn y bore, rhwng 9am a 6pm, yn ystod y nos, dydd Sul a Gwyliau Banc.
- O ran yr atyniadau a pharciau mwyaf poblogaidd i ymweld â nhw, noddodd yr ymatebwyr bod y ddarpariaeth yn 'ddigonol' yn ystod y dydd, ond yn 'annigonol' yn gynnar yn y bore a gyda'r hwyr. Cafodd y cyfleusterau newid ar gyfer plant ifainc a'r cyfleusterau newid i bobl ag anableddau eu pennu'n 'annigonol' yn ystod y dydd, a dim un ar gael yn gynnar yn y bore a gyda'r hwyr.
- Mae yna bryder ynghylch diogelwch wrth ddefnyddio toiledau cyhoeddus o ran cyfleusterau'n cael eu defnyddio ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau yn ymwneud â chyffuriau.

- Roedd y diffyg mewn cyfleusterau newid ar gyfer unigolion ag anabledau wedi'i godi, gyda sôn penodol mewn perthynas â phlant ac oedolion.
- Roedd ymatebwyr o'r farn fod dim digon o gyfleusterau toiledau cyhoeddus ar gael, a bod lleoliad y cyfleusterau yn anghyfleus.
- Nododd llawer o'r ymatebwyr nad oes digon o wybodaeth ar leoliad y cyfleusterau.
- Mae diffyg cyfleusterau wedi atal llawer o ymatebwyr rhag ymweld â rhai lleoliadau.
- Nododd yr ymatebwyr nad yw cyfleusterau ar agor ar yr adegau y mae eu hangen nhw.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn y dylai pobl ddim gorfod talu i ddefnyddio'r toiledau.

Gofynnion ni i'r ymatebwyr pa ddull byddai'n well gyda nhw o ran dod o hyd i'r toiledau a chyfleusterau newid agosaf pan fyddan nhw'n ymweld ag ardal. Dywedodd 64% o'r ymatebwyr fod yn well gyda nhw weld sticer neu boster yn cael ei arddangos yn ffenestr y lleoliad, a nododd 18% y byddai'n well gyda nhw gael ap ar eu ffonau symudol. Nododd 18% o'r ymatebwyr fod yn well gyda nhw ddewisiadau eraill. Roedd awgrymiadau'n cynnwys gwefan, cyfryngau cymdeithasol, arwyddion mewn lleoliadau amlwg, map toiled, papur newydd lleol, ac ati.

Gofynnion ni i'r ymatebwyr p'un a oedd eu hymateb i'r arolwg wedi cael ei ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gan yr amrediad o nodweddion gwarchoddedig fel sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y materion a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, problemau'n ymwneud ag ystod o anabledau a materion iechyd, gallu rhieni â phlant i ddefnyddio'r cyfleusterau, materion yn ymwneud â chyfleusterau toiledau anabl yn rhy fach ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn, yr angen am declynnau codi ar bobl ag anabledau, ac ati.

## **Yr hyn a ddysgon ni o'r ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos**

Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal ledled Rhondda Cynon Taf ym mis Chwefror 2019 am gyfnod o 12 wythnos. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau ac ystod eang o bartïon â diddordeb i ymgynghori ar y Strategaeth Toiledau Lleol (drafft) oedd wedi cael ei llunio yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus Asesiad o Angen. Roedd nifer o gwestiynau yn yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos gan gynnwys gofyn a oedd ymatebwyr o'r farn bod y strategaeth yn darparu gwybodaeth glir i helpu i ddeall pam mae camau gweithredu arfaethedig y strategaeth yn angenrheidiol, a ydyn nhw'n cytuno â'r camau gweithredu o dan Amcan 1 i wella a gwneud yn fawr o'r cyfleusterau presennol, a ydyn nhw'n cytuno â'r camau gweithredu o dan Amcan 2 i hyrwyddo cyfleusterau ychwanegol, priodol a hygyrch a darparu rhagor o wybodaeth os oedden nhw o'r farn bod rhywbeth ar goll o'r amcanion arfaethedig a chamau gweithredu ategol.

Roedd sawl dull ymgysylltu wedi'u defnyddio yn ystod yr ymgynghoriad gan gynnwys adborth gan y cyhoedd, y cyfryngau cymdeithasol, cynnwys ar-lein a negeseuon e-bost, arolygon a holiaduron.

Mae canlyniadau llawn yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos i'w gweld yn Atodiad 4 y strategaeth yma.

Mae rhai o ganfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad cyhoeddus i'w gweld isod:

- Roedd 92% o'r sawl a ymatebodd yn drigolion Rhondda Cynon Taf.

- Roedd 8% yn cynrychioli grŵp neu sefydliad lleol, roedd 7% yn Aelod Etholedig lleol, ac roedd 7% yn gweithio ym mwrdeistref Rhondda Cynon Taf.
- Roedd 72% o'r ymatebwyr o'r farn bod y strategaeth yn darparu gwybodaeth glir i helpu i ddeall pam mae camau gweithredu arfaethedig y strategaeth yn angenrheidiol, a nododd 25% eu bod nhw o'r farn bod y strategaeth yn gwneud hyn yn rhannol. Roedd esboniadau i ategu ymatebion i'r cwestiwn yma yn cynnwys cyfeirio at un cyfleuster toiledau cyhoeddus am ddim ym Mhontypridd yn unig sydd yn annigonol, sylwadau y dylai toiledau cyhoeddus gael eu darparu gan y cyngor bwrdeistref nid busnesau lleol ac eraill, pryderon nad oes modd i'r bobl sydd fwyaf tebygol o angen cyfleusterau weld yr wybodaeth ar-lein.
- Cytunodd 83% o ymatebwyr â'r camau gweithredu o dan Amcan 1 i wella a gwneud yn fawr o'r cyfleusterau presennol, ac roedd 17% wedi cytuno'n rhannol. Roedd rhesymau yn cynnwys sylwadau sy'n nodi bod y cyfleusterau presennol naill ai ar gau neu'n cau'n gynnar, dydy cyfleusterau caffi ddim bob amser yn fodlon i bobl ddefnyddio toiledau heb brynu unrhyw beth. Roedd ymholiad ynghylch pam y dylai busnesau lleol/y sector cyhoeddus dalu i ddarparu toiledau gan ystyried yr arian maen nhw'n ei dalu i'r cyngor yn barod, yn ogystal â phryder o ran anaddasrwydd dau bwrpas toiledau i'r anabl a chyfleusterau newid babanod. Roedd cais am oriau agor gwell toiledau yng nghanol tref Pontypridd ac arwyddion gwell i doiledau cyhoeddus presennol yng nghanol tref Pontypridd.
- Cytunodd 90% o ymatebwyr â'r camau gweithredu o dan Amcan 2 i hyrwyddo cyfleusterau ychwanegol, priodol a hygyrch, ac roedd 10% wedi cytuno'n rhannol. Mynegodd ymatebwyr bryderon y gallai toiledau sydd ar agor gyda'r hwyr gael eu defnyddio gan ddefnyddwyr cyffuriau a gallen nhw fod yn anniogel a chael eu fandaleiddio. Roedd pryderon am gyfleusterau sydd ar gael mewn trefi ar y penwythnos a gyda'r hwyr, anaddasrwydd dau bwrpas rhai toiledau i'r anabl a chyfleusterau newid babanod. Roedd cais am ddarpariaeth toiledau barhaol yng nghanol y dref, yn enwedig gyda'r hwyr.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oes unrhyw beth ar goll o'r amcanion a champau gweithredu atebol, roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys; pryder am gyfleusterau newid ar gyfer oedolion a phlant hŷn anabl, defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau y caiff aelodau o'r cyhoedd fynediad i'r toiledau ar unwaith, cais am ragor o gyfleusterau ar gyfer mamau ifainc a babanod a phobl anabl, mapio sefydliadau'r trydydd sector sy'n caniatáu mynediad i gyfleusterau, tâl i fusnesau lleol i ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau, pryderon am ddarpariaeth larymau cyngor mewn toiledau i'r anabl, yn enwedig mewn lleoliadau pellaf.

Nododd dim un o'r ymatebwyr fod eu hymateb i'r arolwg wedi cael ei ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gan yr amrediad o nodweddion gwarchoddedig fel sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Nododd 28% o ymatebwyr fod gyda nhw salwch neu broblem iechyd hirdymor, a nododd 22% fod gyda nhw anabledd.

Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, cafodd adborth ar y strategaeth ddrafft ei ddarparu gan Bwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned a Phwyllgor Materion Iechyd a Lles yr Awdurdod.

Ystyriodd Aelodau o Bwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned y strategaeth ddrafft a nodon nhw eu cwestiynau a'u sylwadau. Gwnaeth Aelod sylw am ddiffyg darpariaeth mewn rhai trefi a chymunedau a lle roedd darpariaeth, roedd Aelodau o'r farn eu bod yn annigonol am sawl rheswm.

Mewn perthynas â thoiledau mewn siopau megis archfarchnadoedd, roedd Aelodau o'r farn y gallai rhagor gael ei wneud i'w rhoi nhw wrth y fynedfa yn hytrach na llefydd cudd, gan gynnwys yng ngefn y siop.

Roedd Aelod o'r farn bod angen i eiddo hysbysebu bod gyda nhw'r cyfleusterau yma i'r cyhoedd gael gweld. Penderfynodd Aelodau o Bwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned gydnabod y Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft, ac roedden nhw am i'w sylwadau gael eu hystyried wrth lunio'r strategaeth derfynol.

Derbyniodd Pwyllgor Materion Iechyd a Lles y Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft a chefnogon nhw hi yn fras. O ran cyfleusterau newid babanod a thoiledau i'r anabl, roedd y niferoedd yn isel yn ôl Aelodau, a gallai rhagor gael ei wneud i annog y sector cyhoeddus a grwpiau eraill i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y cyfleusterau yma ar gael lle mae angen amdany'n nhw. Cafodd sylw ei wneud am yr angen i gynyddu darpariaeth gyffredinol o gyfleusterau toiledau ledled y Fwrdeistref Sirol.

Cwestiynodd Aelod y ddarpariaeth o gyfleusterau toiledau ar gyfer achlysuron lleol a ph'un oes cymhareb o ran nifer y toiledau a phobl sy'n mynd i'r achlysur. Esboniwyd bod yna grŵp cynghori achlysuron, a dyma rywbeth fyddai'n dod o dan orchwyl y grŵp yma.

Nododd y Cadeirydd bwysigrwydd y cyfleusterau yma i breswylwyr y Fwrdeistref Sirol a chaiff gwybod bod yna ddarpariaeth toiledau mewn ardaloedd wneud gwahaniaeth i berson sy'n gadael ei dŷ, yn enwedig pobl â chyflyrau iechyd penodol. Bydd hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles. Roedd Aelodau yn teimlo'n gryf bod y diffyg o hysbysebu yn broblem gan nad yw nifer o breswylwyr yn effro i gyfleusterau sy'n cynnig i'r cyhoedd ddefnyddio'u darpariaeth toiledau. Gwnaeth Aelod sylw am hyrwyddo sticer Llywodraeth Cymru gyda logo toiled arno er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn deall ei ystyr a bod croeso iddyn nhw ddefnyddio cyfleusterau mewn llefydd lle mae'r sticer yn cael ei arddangos.

Cododd Aelod broblem ynglŷn â lleoliad cyfleusterau mewn siopau gan y caiff hyn ei weld yn rhwystr i bobl. Roedden nhw o'r farn bod angen cynnal gwaith i annog siopau eu rhoi nhw wrth y fynedfa.

Daeth sylwadau i law mewn perthynas â chael rhagor o gyfleusterau toiledau ar gael mewn caffis, bariau, siopau, ac ati. Bydd hyn yn cynyddu nifer y bobl sy'n galw heibio i'r busnes er y bydd costau o ran darpar cyfleusterau a'u cynnal a chadw. Bydd angen trafodaeth gyda busnesau. Bydd darpariaeth toiledau well yn dda o ran nifer y bobl sy'n ymweld â chanol y dref a'r economi a datgloi potensial ein trefi.

Penderfynodd Aelodau'r Pwyllgor Materion Iechyd a Lles gydnabod y Strategaeth Toiledau Lleol ddrafft ac roedden nhw am i'w sylwadau gael eu hystyried wrth lunio'r Strategaeth derfynol.

## Yr hyn mae modd i'r Cyngor ei wneud i fynd i'r afael â'r adborth

- **Sicrhau bod digon o gyfleusterau ar gyfer y boblogaeth leol:** Mae canol trefi yn lleoliadau poblogaidd wedi'u pennu gan yr asesiad o angen. Dyna'r prif hwb trafndiaeth ar gyfer pobl sy'n cyrraedd ar y trê neu ar y bws. Dylai darpariaeth felly ganolbwyntio ar yr ardaloedd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd iddyn nhw. Rhaid ystyried yr ardaloedd yma wrth adolygu datblygiadau yn y dyfodol yng nghanol trefi ac o'u cwmpas nhw.
- **Cyfleusterau sy'n hygyrch i bawb, ym mhob lleoliad ymarferol:** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn hybu cyfleoedd cyfartal i ddarparu cyfleusterau addas, hygyrch ac effeithiol i bob rhan o'r gymuned heb unrhyw ragfarn.
- **Cyfleusterau sy'n addas ar gyfer y lleoliad:** Bydd darpariaeth y Cyngor ar gyfer pobl leol, siopwyr ac ymwelwyr yn bennaf, a hynny mewn ardaloedd prysur a rhai parciau mwy. Mae parciau yn denu trigolion a thwristiaid, ac mae rhai yn cynnwys manau chwarae i blant. Mae'n bosibl nad oes cyfleusterau eraill yn agos y mae modd i bobl eu defnyddio, wrth ddefnyddio'r parc. Yn gyffredinol, mae canolfannau siopa lleol yn cynnwys siopau adwerthu cymysg sydd, yn aml, yn fusnesau bach neu ganolig. Maen nhw'n ardaloedd lle mae pobl yn cael eu hannog i aros am beth amser.
- **Cyfleusterau hawdd eu cyrraedd gydag arwyddion da ynglŷn â chyfarwyddiadau ac arwyddion ynglŷn â gwybodaeth am gyfleusterau unigol:** Mae manylion lleoliadau toiledau'r Cyngor yn Atodlen 2 ac ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Bydd y Cyngor yn gwella ymwybyddiaeth a gwybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth toiledau yn yr ardal trwy sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar wefan y Cyngor a storfa data mynediad agored 'Lle' gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei diweddarau.

Bydd y Cyngor yn ystyried arddangos sticer gyda logo toiled arno wrth fynedfeydd adeiladau'r Cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd ac unrhyw fusnesau preifat sy'n cytuno â hyn.

Byddwn ni'n annog adeiladau darparwyr iechyd i gymryd rhan ac arddangos y sticer hefyd.

- **Darparu gwybodaeth ynglŷn â hygyrchedd:** Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am gyfleusterau unigol ledled y fwrdeistref. Bydd yr wybodaeth yn cael ei diweddarau fel bod modd i'r Cyngor a phartïon eraill â diddordeb ei defnyddio. Byddwn ni hefyd yn diweddarau storfa data mynediad agored 'Lle' gyda Llywodraeth Cymru.
- **Darpariaeth o ran twristiaid:** Mae nifer y twristiaid a phobl nad ydyn nhw'n byw yn yr ardal sy'n ymweld â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'r atyniadau trwy gydol y flwyddyn yn golygu bod rhagor o alw am gyfleusterau toiledau. Dylai maint cyfleusterau fod yn addas ar gyfer nifer y bobl mae disgwyl iddyn nhw ddefnyddio'r toiledau heb eu gorlenwi neu heb orfod aros yn hir. Mae modd ystyried safon sy'n seiliedig ar ffigurau cyfrif nifer y cerddwyr lle bo hynny'n ymarferol. Mae modd i hyn lywio ystyriaethau os bydd angen rhagor o gyfleusterau toiledau ar adegau penodol.

- **Gwasanaethau gyda'r nos yn lleoliadau allweddol lle mae angen penodol wedi'i bennu:** Mae achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau, fandaliaeth a niwed graffiti ar gyfleusterau toiledau cyhoeddus y Cyngor wedi arwain at gloi'r rhan fwyaf o gyfleusterau yn gynnwys yn y nos. Mae cyfleusterau siopau a busnesau eraill fel arfer wedi'u cyfyngu i'w horiau agor oherwydd rhesymau diogelwch. Bydd materion o'r fath yn cael eu hystyried wrth gynnal adolygiadau yn y dyfodol.

Mae gwaith datblygu economi gyda'r nos a newidiadau mewn canol trefi yn golygu eu bod nhw'n hybiau hamdden ac adloniant yn ogystal ag yn hybiau adwerthu a masnachu.

